CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1064 (Cy.110)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Bracla a Choety Uchaf) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi effaith i gynigion a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Effaith y cynigion hyn yw y bydd dwy ardal yn cael eu trosglwyddo o gymuned Coety Uchaf i gymuned Bracla ac y bydd un ardal yn cael ei throsglwyddo o gymuned Bracla i gymuned Coety Uchaf wedi i'r Gorchymyn hwn ddod i rym. Mae'r ffin rhwng Ward Gymunedol Pendre a Ward Gymunedol Coety yng nghymuned Coety Uchaf yn cael ei newid i gyfateb â'r ffin gymunedol newydd fel y'i dangosir ar y map ffiniau ac, ymhellach, caiff y ffin rhwng Ward Gymunedol Pendre a Ward Gymunedol Coety ei newid fel y dangosir ar y map ffiniau.

Mae printiau o'r map ffiniau yn dangos y ffiniau newydd wedi eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn y Swyddfeydd Dinesig, Angel Street, Pen-y-bont ar Ogwr ac yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd.

Mae Rheoliadau Newid Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'u diwygiwyd) y cyfeirir atynt yn Erthyglau 1(2) a 2 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynglŷn ag effaith a gweithredu gorchmynion megis y rhain.

Mae yna newidiadau canlyniadol i adrannau etholaethol Pendre a Bracla i gyfateb â'r ffin gymunedol newydd.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1064 (W.110)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Bridgend (Brackla and Coity Higher) Order 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972, gives effect to proposals by the Local Government Boundary Commission for Wales. The effect of those proposals is that two areas will be transferred from the community of Coity Higher to the community of Brackla and one area will be transferred from the community of Brackla to the community of Coity Higher after this Order comes into force. The boundary between the Pendre Community Ward and the Coity Community Ward in the community of Coity Higher is altered to correspond with the new community boundary as shown on the boundary map and in addition, the boundary between the Pendre Community Ward and the Coity Community Ward is altered as shown on the boundary map.

Prints of the boundary map showing the new boundaries are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Bridgend County Borough Council at the Civic Offices, Angel Street, Bridgend, and at the offices of the National Assembly for Wales at Cathays Park, Cardiff.

The Local Government Area Changes Regulations 1976 (as amended) referred to in Articles 1(2) and 2 of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provisions about the effect and implementation of orders such as these.

There are consequential changes to the electoral divisions of Coity, Pendre and Brackla to correspond with the new community boundary.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1064 (Cy.110)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Bracla a Choety Uchaf) 2006

*Wedi'i wneud* *26th Mawrth 2006*

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)*

Gan fod Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, wedi cyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), dyddiedig Awst 2005 ar ei adolygiad o ran o'r ffin rhwng Cymunedau Bracla a Choety Uchaf ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghyd â chynigion a luniwyd ganddo arnynt;

A chan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hynny heb newidiadau;

A chan fod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd bellach wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent i'w harfer o ran Cymru(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a Chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Bracla a Choety Uchaf) 2006.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2006, sef y diwrnod penodedig at ddibenion Rheoliadau 1976, ac eithrio fod y Gorchymyn hwn, at y dibenion a osodir yn Rheoliad 4 o Reoliadau 1976, yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud.

(**1**) 1972 p.70.

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1064 (W.110)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Bridgend (Brackla and Coity Higher) Order 2006

*Made* *26 March 2006*

*Coming into force in accordance with Article 1(2)*

The Local Government Boundary Commission for Wales, having submitted to the National Assembly for Wales, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(**1**), a report dated August 2005 on its review of part of the boundary between the Communities of Brackla and Coity Higher in the County Borough of Bridgend, together with its proposals formulated thereon;

And the National Assembly for Wales having decided to give effect to those proposals without modification;

And more than six weeks having elapsed since those proposals were submitted to the National Assembly for Wales;

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 and now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in relation to Wales(**2**), makes the following Order:

**Title and Commencement**

**1**.-(1) The title of this Order is the Bridgend (Brackla and Coity Higher) Order 2006.

(2) This Order comes into force on 1 April 2006, which is the appointed day for the purposes of the 1976 Regulations, except that for the purposes set out in Regulation 4 of the 1976 Regulations this Order comes into force on the day after that on which it is made.

(**1**) 1972 c.70.

(**2**) *See* National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "y map ffiniau" ("*the boundary map*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a nodwyd fel "Map Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Bracla a Choety Uchaf) 2006" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau 1976;

ystyr "Rheoliadau 1976" ("*the 1976 Regulations*") yw Rheoliadau Newid Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'u diwygiwyd)(**1**);

**Newid Ffiniau Cymunedau**

**3**.-(1) Gwahenir y rhannau hynny o Gymuned Coety Uchaf a ddangosir fel ardaloedd rhesog "a" ar y map ffiniau oddi wrth y gymuned honno ac maent yn ffurfio rhan o gymuned Bracla.

(2) Gwahenir y rhan honno o gymuned Bracla a ddangosir fel ardal resog "b" ar y map ffiniau oddi wrth y gymuned honno ac mae'n ffurfio rhan o gymuned Coety Uchaf.

**Newidiadau i Ffiniau Wardiau**

**4**.-(1) Newidir ffiniau Ward Gymunedol Pendre a Ward Gymunedol Coety yng Nghymuned Coety Uchaf fel eu bod yn cyfateb â'r ffin gymunedol newydd.

(2) Newidir y ffin rhwng Ward Gymunedol Pendre a Ward Gymunedol Coety yng nghymuned Coety Uchaf fel y dangosir ar y map ffiniau ac a nodir fel "Ffin y Ward Gymunedol Newydd."

**Newidiadau Canlyniadol i Adrannau Etholiadol**

**5**. Newidir ffiniau adrannau etholaethol Pendre, Coety a Bracla i gyfateb â'r ffin gymunedol newydd.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

26 Mawrth 2006

*Sue Essex*

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Interpretation**

**2**. In this Order-

"the boundary map" ("*y map ffiniau*") means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Map of the Bridgend (Brackla and Coity Higher) Order 2006" and deposited in accordance with Regulation 5 of the 1976 Regulations;

"the 1976 Regulations" ("*Rheoliadau 1976*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976 (as amended) (**1**);

**Change to Community Boundaries**

**3**.-(1) Those parts of the community of Coity Higher shown as hatched areas "a" on the boundary map are separated from that community and form part of the community of Brackla.

(2) That part of the community of Brackla shown as hatched area "b" on the boundary map is separated from that community and forms part of the community of Coity Higher.

**Changes to Ward Boundaries**

**4**.-(1) The boundaries of Pendre Community Ward and Coity Community Ward in the community of Coity Higher are altered to be in alignment with the new community boundary.

(2) The boundary between Pendre Community Ward and Coity Community Ward in the community of Coity Higher is altered as shown on the boundary map marked as the "New Community Ward Boundary."

**Consequential Changes to Electoral Divisions**

**5**. The boundaries of the electoral divisions of Pendre, Coity and Brackla are altered to be in alignment with the new community boundary.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

26 March 2006


*Sue Essex*

The Minister for Finance, Government and Public Services

(**1**) O.S. 1976/246 fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol ond nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol i'r offeryn statudol hwn.

(**1**) S.I. 1976/246 as amended by various statutory instruments which amendments are not relevant to this statutory instrument.


## Map Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Bracla a Choety Uchaf) 2006




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron 2006. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y drwydded 100017916, 2006

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Map of the Bridgend (Brackla and Coity Higher) Order 2006




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
© Crown copyright 2006. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Welsh Assembly Government. Licence Number: 100017916. 2006

Cartographics, Welsh Assembly Government

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 Rhif 1064 (Cy.110)

# 2006 No. 1064 (W.110)

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Bracla a Choety Uchaf) 2006

The Bridgend (Brackla and Coity Higher) Order 2006

©℗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W320/05/06 ON